

DOLEN Y TAB – 3 8–9 Mai 2020

OEDFA BORE SUL MAI 10^{fed}

Bydd oedfa ddigidol ar wefan a Facebook y capel fore Sul dan ofal y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol, gydag Emlyn Davies yn cyfarwyddo.

Gobeithiwn gynnwys copi papur yn rhifyn 4 *Dolen y Tab* i'r rhai sydd ddim yn medru ei dderbyn ar y we.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Mai 10–17 yw dyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, ac mae'r ffocws a'r dulliau casglu wedi gorfod newid oherwydd yr argyfwng presennol.

Helpu ffoaduriaid Rohingya mewn gwersylloedd ym Mangladesh a phobl ddigartref yn Nigeria fydd yr ymgyrch eleni, ac wrth reswm, ni fydd casglu o ddrws i ddrws.

Penderfyniad y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol oedd cynnal casgliad ymhlith yr aelodau, o gofio rhwyddineb a llwyddiant casgliadau felly yn ddiweddar at argyfyngau Llifogydd RhCT a'r Coronafirws.

Mae modd anfon siec at Arwyn, ein trysorydd, yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, gan amgáu nodyn yn dweud Cymorth Cristnogol: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc gan nodi Cymorth Cristnogol yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod: Cod didoli 30 – 96 – 72 Rhif cyfrif 03607499.

Bydd y casgliad yn para tan ddiwedd mis Mai.

Mae'r gweithgor yn ddiolchgar iawn i Arwyn am ei barodrwydd a'i hyblygrwydd di-flino. Mae wedi bod yn brysus iawn gyda'r casgliadau'n ddiweddar.

CYFARCHION

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Carol a Penri. Mae triniaeth Carol yn parhau, a hithau mor rhadlon ag erioed.

AMLENNI GWYN A BROWN

Erbyn bore Sul byddwn wedi colli wyth oedfa'n olynol yn y Tabernacl. Wnawn ni ddim gofyn i chi ddyfalu pa mor bell yn ôl yw hi er pan fethwyd cynnal ein hoedfaon yn yr adeilad am gyfnod mor hir yn holl hanes yr eglwys. Yr ateb, wrth gwrs, yw 2015, sef y flwyddyn yr adnewyddwyd y capel. Ond mae'n bwysig cofio bod trefniadau'r flwyddyn honno'n bur wahanol i eleni, oherwydd fe lwyddwyd i gynnal cwrdd bob bore Sul yn Neuadd y Pentref am dros bymtheg mis. Felly, gan nad yw'n ymddangos y byddwn yn cael dychwelyd i gyd-addoli ar y Sul am beth amser eto, mae un o'n prif ffynonellau incwm – sef y casgliadau wythnosol – wedi sychu lan yn gyfan gwbl am y tro.

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa eglwys (amlenni gwyn) a/neu'r gronfa elusennau (amlenni brown) drwy'r plât casglu, byddem yn ddiolchgar petaech yn parhau i gyfrannu yn ôl eich arfer

drwy anfon siec yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Os byddwch yn anfon at Arwyn, rhowch y siec yn yr amlen wen neu frown – fel arall, nodwch eich rhif aelodaeth. Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod: Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf. Cod didoli: 30 – 96 – 72; Rhif y cyfrif: 03607499.

YN EISIAU: CYDLNYDD SAFLE

Mae Pwyllgor y Meddiannau'n chwilio am berson i ofalu am drefniadau hurio'r capel a'r ganolfan a throsglwyddo'r wybodaeth am bob gweithgarwch i'r Gofalwr Safle. Carem glywed gan unrhyw un sy'n fodlon ystyried ymgymryd â'r gwaith.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Mike West 01443 206833 / mikealynwest@yahoo.co.uk, neu Gwilym Huws 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk.

DECHRAU CANU . . .

Ffynhonnell werthfawr i ganfod adnoddau Cristnogol Cymraeg amrywiol yw www.cristnogaeth.cymru. Dros yr wythnosau nesaf rhoddwn ddisgrifiad o gynnwys rhai o'r adnoddau hynny y cyfeirir atynt ar y wefan, yn y gobaith y byddant o fendith yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Daw'r adnodd cyntaf o'r adran Emynau a Chaneuon > Is-adran Tonau a Chyfeiliant, sef www.smallchurchmusic.

Mae'r wefan hon yn cynnwys tonau y gellir eu lawrlwytho'n rhad ac am ddim i'ch cyfrifiadur. Mae'n adnodd defnyddiol iawn os oes angen cyfeiliant am sesiwn o ganu emynau ar yr aelwyd, naill ar eich pen eich hun neu gydag aelodau eraill o'r teulu; y cyfan sydd angen ei wneud yw clicio ar un o'r rhestr o dros 500 o emynau a geir yn *Caneuon Ffydd*, a chewch eich arwain at yr emyn dôn berthnasol i'w lawrlwytho. Yn anffodus, dim ond cyn belled ag emyn 596 yn *Caneuon Ffydd* y ceir mynediad trwy glicio ar linell gyntaf emynau'r gyfrol. Mae'r wefan hefyd yn caniatáu chwilio am donau o dan eu henw. Nodwedd arall yw y gellir dewis canu'r emyn i gyfeiliant organ draddodiadol, piano neu fand eglwys.

Ar y llaw arall, os yw'n well gennych i ymuno ag un o gorau blaenllaw Cymru i gyd-ganu rhai o'ch hoff emynau (gan osgoi wynebu clyweliad ymlaen llaw!), yna mae'n bosib archebu un o'r saith CD a luniwyd yn y gyfres *Hoff Emynau Cymru*. Mae pob pecyn yn y gyfres yn cynnwys geiriau, cerddoriaeth a thrac sain o 15 emyn. Pris pob pecyn yw £14.99 gan gynnwys cludiant. Am ragor o fanylion, ac i archebu un neu ragor o'r pecynnau, ewch i wefan www.coraucymru.com. Er gwybodaeth, mae nifer o'n haelodau yn y Tabernacl i'w gweld yn morio canu yn y llun sy'n hysbysebu'r gyfres gyfan ar y wefan!

Ar dudalen 2, atgynhyrchir neges amserol Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

-DROSODD-

Arloesi: dyma'n cyfle ni

Gair o anogaeth gan y Parchg Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Duw a wŷr beth fydd ein hanes ni erbyn y daw'r cyfnod presennol hwn i ben. Beth bynnag yw ein profiadau'n byw dan warchae'r haint farwol, bydd hynny'n siŵr o adael ei ôl arnom a'n gwneud yn bobl wahanol. Bydd gwasgfa byw dan amgylchiadau dieithr a chwithig wedi datgelu i ni ryw elfennau yn ein bywydau a fu'n gwbl gudd cyn hyn, a'r rheiny'n dod yn achos llawenydd a siom inni, fel ei gilydd. Mae'r hyn sy'n wir am unigolion a'u teuluoedd yn wir hefyd am Gristnogion a'u heglwysi.

Tystia'r twf aruthrol yng ngweithgareddau rhai eglwysi ar y cyfryngau cymdeithasol i amryw o Gristnogion brofi genedigaeth newydd byd o weithredu amgen yn sgil yr haint. Dros nos meistrolwyd moddau newydd o addoli a thystio, a magwyd hyder mewn arddulliau gwahanol o gyfathrebu â'n gilydd.

A chofio natur gyfnewidiol cyfryngau unrhyw oes, a byrhoedledd nodedig rhai ein cyfnod ni, mae'n edrych yn bur debygol mai mater o ddysgu gydol oes fydd ein hanes os daw'r dechnoleg ddiweddaraf a'i theclynnau'n rhan annatod o'n hymdrech i hyrwyddo'n gwaith a'n cenhadaeth. Gwers na ddysgwyd mohoni gan bob cenhedlaeth o Gristnogion, o ystyried eu teyrngarwch di-ildio a chyson wrth gyfryngau a gollodd eu heffeithiolrwydd a'u defnyddioldeb ers tro.

O'r llu methiannau sy'n bla arnom fel eglwysi, go brin fod yr un yn fwy niweidiol na'n hymgais i gwrdd â gofynion agendau y cenedlaethau ddaeth o'n blaenau ni. A chyflawni disgwyliadau rhaglenni gwaith na chawsom unrhyw ran yn eu llunio. Tybed, a wna'r ffaith fod gwyddor newydd ar waith ein cynorthwyo i fynnu'n rhyddid o orthrwm caethiwus rhai agweddau o'n hetifeddiaeth grefyddol?



Wrth droi ei chapel yn sgrin, a'i chynulleidfa yn wynebaw arni, mae'r eglwys wedi amlygu rhywbeth llawer mwy na'i dawn i drin y dechnoleg gyfoes. Er ei fod yn ymddangos yn beth digon arwynebol a diniwed, ar brydiau gellid meddwl bod y gweithgarwch newydd

hwn yn arwydd o symudiad dipyn mwy sylweddol a dwys yn ein plith. Nid gormodiaith yw honni y gall y meddylfryd newydd fod ar waith yn ein plith a allai ein harwain i fan gwahanol i'r un ydym wedi hen arfer ag ef.

Rhyfeddod, yn wir, yw'r ffaith i'r eglwys – gaeth i'w hadeiladau, diogel ar ei thir ei hunan, cyndyn i eraill o'r tu fas ei meddiannu a'i llygru, hyderus yn ei phulpudd, 'chwe throedfedd uwchben beirniadaeth' – ddewis gosod ei hunan, drwy gyfrwng yr un we fyd-eang, ar yr un gwastad ag eraill a chyfrif y byd cyfan, wedyn, yn faes ei gweithgaredd.

Mae'n datgan bod y ffin (os ydyw'n bodoli o gwbl) rhwng y cysegredig a'r seciwlar yn bur annelwig. Byddai'r diwinyddion yn siŵr o alw'r symudiad yn un 'ymgnawdoledig'. Fel ei Harglwydd, y mae'r eglwys hithau wedi cyrraedd y byd go iawn, ac yno daw'n bresenoldeb o blaid y gwirionedd ac yn llais i gyhoeddi bywyd yn ei holl gyflawnder i'r greadigaeth gyfan.

Mater o dristwch enbyd wedi i'r adfyd hwn fynd heibio fyddai'n dychweliad i'r arferol, yn union fel pobl wedi teithio'n ofer a heb ddysgu dim.

Dymuniad yr Undeb drwy'r 'Rhaglen Fuddsoddi ac Arloesi' ddaw i'r golwg yn fuan yw noddi eglwysi i oroesi drwy arloesi ac i arloesi.

Cyhoeddwyd y neges uchod yn wreiddiol yn rhifyn Gwanwyn 2020 o Dyma'r Undeb. Gellir gweld copi digidol o'r cylchlythyr ar wefan Undeb yr Annibynwyr (<http://annibynwyr.org/>).

Cofiwch anfon unrhyw newyddion neu gyhoeddiadau sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk neu ffonio 01443 225205.